**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 28 Tachwedd 2001 |
| **Amser:** | 2.00 i 4.45 pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**DRAFFT TERFYNOL 'POLISI CYNLLUNIO CYMRU'**

**Diben**

1. Ystyried drafft terfynol 'Polisi Cynllunio Cymru' (atodiad 1) ar ôl ei ddiwygio yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus.

2. Cytuno ar ei gyhoeddi.

**Crynodeb / Argymhellion**

3. Mae'r papur hwn yn nodi'r cefndir i adolygiad y Polisi Cynllunio. Yn Atodiad 1 ceir drafft terfynol 'Polisi Cynllunio Cymru' a gwelir yn yr atodiadau eraill:

- grynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar ddrafft 'Polisi Cynllunio Cymru' (Atodiad 2)

- y prif newidiadau i'r polisi, canllawiau ychwanegol a'r newidiadau strwythurol a wnaethpwyd i'r ddogfen (Atodiad 3);

- manylion newidiadau pellach a gaiff eu gwneud i ddiwyg y ddogfen cyn ei chyhoeddi (Atodiad 4).

**Noder.** Ni fydd yn newidiadau hyn yn newid cynnwys y papur o ran polisi.

**Amseru**

4. Cytunodd y Pwyllgor (cyfarfod y Pwyllgor ar 17 Ionawr 2001) i gyhoeddi drafft 'Polisi Cynllunio Cymru' ar gyfer ymgynghori cyhoeddus. Cyhoeddwyd y ddogfen ar 27 Chwefror a derbyniwyd ymatebion hyd at 1 Mehefin 2001. Yn dilyn y broses ymgynghori diwygiwyd ac ad-

drefnwyd y ddogfen.

5. Yn dilyn trafodaeth yn y Pwyllgor, disgwylir rhyddhau’r fersiwn cyhoeddedig ym mis Mawrth 2002.

**Cefndir**

6. Mae’r ddogfen "Canllawiau Cynllunio (Cymru) : Polisi Cynllunio, Diwygiad Cyntaf" (PG(W) PP) (Ebrill 1999) yn darparu’r fframwaith strategol ar gyfer dull effeithiol o baratoi cynlluniau datblygu awdurdodau lleol ac mae angen ei hystyried wrth benderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio ac ar apeliadau cynllunio. Rhaid diweddaru polisi cynllunio’r Cynulliad er mwyn adlewyrchu egwyddorion, dyletswyddau statudol a blaenoriaethau’r Cynulliad. Cynhaliwyd adolygiad yn ystod 2000–01 er mwyn llunio canllawiau newydd, **‘Polisi Cynllunio Cymru’**.

7. Sefydlwyd y Fforwm Cynllunio Defnydd Tir ym mis Ionawr 2000 i roi cymorth gyda’r adolygiad. Nododd y Fforwm pa agweddau ar y canllawiau cynllunio yr oedd angen sylw brys arnynt, ac ystyriwyd pa newidiadau y dylid eu cynnwys yn ‘Polisi Cynllunio Cymru’. Yr oedd hefyd yn nodi’r materion tymor hir neu dymor canolig yr oedd y Fforwm yn ystyried y dylid mynd i’r afael â hwy naill ai drwy ymchwil neu is-ddeddfwriaeth.Cyflwynwyd adroddiad y Fforwm Cynllunio Defnydd Tir i Sue Essex AC ar 31 Gorffennaf 2000 ac fe’i cyflwynwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 13 Medi 2000, cyn i’r polisi cynllunio gael ei ailddrafftio.

8. Yn ogystal ag Adroddiad y Fforwm, rhoddwyd ystyriaeth i’r canlynol yn yr adolygiad:

- safbwyntiau Aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth;
- adolygiad y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig o effaith y system gynllunio ar arallgyfeirio gwledig;
- polisïau, strategaethau a mentrau’r Cynulliad fel y’u nodir mewn dogfennau megis Y Cynllun Datblygu Cynaliadwy a GwellCymru.com;
- dogfennau megis y Bartneriaeth Wledig a phapurau gan y Grp Ymgynghorol ar Drafnidiaeth a Fforwm yr Arfordir;
- argymhellion y Fforwm Ymgynghorol Cenedlaethol ar Dai yng Nghymru a arweiniodd at strategaeth tai genedlaethol arfaethedig y Cynulliad ar gyfer Cymru "Cartrefi Gwell i Bobl Cymru";
- y Fenter Dylunio;

- canfyddiadau ymchwil ddiweddar er enghraifft Arallgyfeirio ar Ffermydd a'r System Gynllunio (cyhoeddwyd Chwefror 2001);
- materion sydd wedi dod i'n sylw ers Gwanwyn 1999 a;
- chynllun gofodol Cymru sydd ar droed.

9. Trafodwyd y fersiwn drafft ymgynghori 'Polisi Cynllunio Cymru' yn y Pwyllgor ar 17 Ionawr. Croesawodd yr Aelodau y ddogfen. Cytunodd y Pwyllgor i gyhoeddi'r ddogfen at ddiben ymgynghori cyhoeddus ond gofynnwyd bod ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i'r materion canlynol yn ystod y cyfnod ymgynghori:

- effaith datblygu ar iechyd;

  (cyfeirir at hyn yn awr, pan fo'n briodol, drwy gydol y ddogfen)

- atgyfnerthu ymrwymiadau i gydraddoldeb;

  (cyfeirir at hyn yn awr, pan fo'n briodol, drwy gydol y ddogfen)

- materion tai, yn enwedig mewn perthynas ag ail gartrefi;

  (mae ymchwil ar y gweill ar 'Ail Gartrefi a Thai Haf a'r System Cynllunio Defnydd Tir' er mwyn cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu polisïau ymhellach)

- ailddefnyddio adeiladau amaethyddol;

  (mae canllawiau pellach wedi'u cynnwys yn adran 7.6, fel rhan o'r bennod 'Cefnogi'r Economi')

- agwedd fwy cadarnhaol at ynni adnewyddol;

  (mae canllawiau wedi'u cynnwys mewn adran newydd ar 'Ynni Cynaliadwy' – 12.4)

- statws cyngor Asiantaeth yr Amgylchedd ar y perygl o lifogydd;

  (mae canllawiau wedi'u cynnwys fel rhan o'r bennod newydd ar 'Lleihau a Rheoli Peryglon Amgylcheddol a Llygredd'

- mannau agored.

(mae canllawiau wedi'u cynnwys mewn adran wedi'i hymestyn ym Mhennod 2 ar 'Reoli ffurfiau trefol trwy Leiniau Glas a Lletemau Glas')

Disgrifir y newidiadau a wnaethpwyd i'r ddogfen er mwyn adlewyrchu'r pwyntiau hyn yn Atodiad 3.

10. Rydym wedi adolygu'r ddogfen gyfan i roi ystyriaeth i'r datblygiadau diweddar ym mholisiau a mentrau'r Cynulliad a, phan fo hynny'n briodol, rydym wedi diwygio'r testun. Er enghraifft, rydym wedi adolygu'r polisïau yn 'Polisi Cynllunio Cymru' yng ngoleuni datganiad y Comisiynydd Plant ar ysgolion ar safleoedd tirlenwi. Rydym wedi penderfynu y bydd y Nodyn Cyngor Technegol ar Dir Halogedig yn cael ei adolygu i fynd i'r afael â goblygiadau cynllunio defnydd tir.

11. Yr oedd newidadau i'r polisi cynllunio mewn perthynas â thelathrebu yn destun proses ymgynghori ar wahân (daeth i ben Ionawr 2001). Ystyriwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad telathrebu fel rhan o Adolygiad y Polisi Cynllunio ac erbyn hyn mae'r polisi ar delathrebu wedi'i gynnwys yn adran 12.5 drafft terfynol 'Polisi Cynllunio Cymru' (Atodiad 1).

12. Dylid nodi na ellir gwneud unrhyw newidiadau polisi sylweddol yn awr gan y byddai newidiadau o'r fath yn golygu y byddai'n rhaid ymgynghori â'r cyhoedd eto a byddai hynny'n arwain at oedi sylweddol cyn cyhoeddi'r ddogfen. Bydd Polisi Cynllunio Cymru'n parhau i gael ei fonitro a'i adolygu. Caiff unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau i'r polisi y cytunir arnynt cyn cyhoeddi'r fersiwn diwygiedig nesaf o Bolisi Cynllunio Cymru eu cyhoeddi drwy ddatganiad gan y Gweinidog ac yna'u cyhoeddi fel Datganiad Cynllunio Interim i'r Cynllun Polisi Cynllunio. Byddai datganiadau o'r fath ar gael ar wefan y Cynulliad ac mewn copi caled.

**Cydymffurfio**

13. Mae polisïau cynllunio yn darparu'r fframwaith ar gyfer llunio cynlluniau datblygu statudol ac ar gyfer swyddogaethau rheoli datblygu yng Nghymru a drosglwyddwyd i'r Cynulliad gan y Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau.Mae'r holl bwerau hyn wedi'u trosglwyddo i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd. Mae gan y Cynulliad ber i wneud unrhyw beth sy'n atodol i weithredu'i swyddogaethau statudol (Adran 40 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998). Nid oes yna unrhyw faterion sy'n ymwneud â rheoleidd-dra na phriodoldeb. Ymgynghorwyd â Swyddfa Gydymffurfio'r Cynulliad, ac mae'n fodlon.

**Goblygiadau Ariannol**

14. Ni fydd y broses o baratoi 'Polisi Cynllunio Cymru' yn cynnwys unrhyw gostau uwchlaw'r rhai a ddyranwyd eisoes ar gyfer datblygu polisi cynllunio ac ar gyfer ymchwil. Bydd y costau sy'n gysylltiedig â pharatoi a chyhoeddi 'Polisi Cynllunio Cymru' yn cael eu hysgwyddo gan y gyllideb bresennol sy'n ymwneud â chostau gweinyddol. Ymgynghorwyd â'r Is-adran Cynllunio

Ariannol, a nodwyd nad oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad.

**Themâu Trawsbynciol**

15. Lluniwyd y polisi yn 'Polisi Cynllunio Cymru' yng ngoleuni ymrwymiad y Cynulliad i ddatblygu cynaliadwy, mynd i'r afael ag amddifadedd cymdeithasol a Chyfle Cyfartal, a hefyd mae'n rhoi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg a materion diwylliannol.

**Camau i'w cymryd gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth**

16. Ystyried drafft terfynol 'Polisi Cynllunio Cymru' a chyfrannu'u safbwyntiau.

**Cyswllt**

Kay Powell, Pennaeth yr Is-adran Cynllunio est.-3876

Kay.Powell@wales.gsi.gov.uk